Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gyhanliwyd ar 5ed o Orffennaf 2022

Presenol oedd Prys Ellis, Jonh Jones, Trystan Humphreys, LLio Morris, Guto Jones, Ffuon Williams, Maria Roberts (cadeirydd), Cynghorydd Gwennol Ellis a Carol Humphreys (clerc), a cafwyd ymddiheuriadau gan Einion Edwards a Menai Hughes.
Datgan Diddordeb - Neb
Cofnodion blaenorol materion yn codi
Llwybr troed ger yr ysgol - dywedodd Gwennol Ellis ei bod yn edrych i mewn i hynn ac ei bod wedi bod yn siarad efo Dylan Jones or Cyngor Sir ac bod rhaid inni fel cynghorwyr benderfynnu pa ochr ma'r llwybr am fynd ac roedd digon bodlon i ddod allan atom i ymweld a thrafod y lleoliad ymhellach a gweld beth sydd bosib ei wneud.
Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir.
Gohebiaeth
[1.0] Biniau Brown Ailgylchu gwastraff gwyrdd – Mae un bin Newydd wedi ei archebu yn lle yr un ddau gael ei ddwyn, ac bod y clerc wedi talu am gwasanaeth casglu i 4 am y flwyddyn 2022/23 £115.00.
[1.1] Arian fferm wynt Bodtegir - Gan bod grwp wedi ei sefydlu i drafod yr arian yma penderfynwyd i drosglwyddo y taliad a gafwyd mis Ionawr sef £2760.80 drosodd ir trysorydd ac bydd taliadau o hyn allan yn cael ei talu ir grwp yn uniongyrchol.
[1.2] Arian Byw – anfoneb gan Teleri Jones am wneud y cyflog ar archwilio awdit 2021-22 - £125.00
[1.3] Haydn Roberts Anfoneb am dorri gwair y fynwent Newydd £420.00 fynwent yr Eglwys a Tyn Rhyd £220.00.
[1.4] Cronfa Budd Cymunedol Brenig cais wedi bod yn llwyddiannus am daliad cyfatebol £1138.32.
[1.5] Cais Cymuned Gwyrdd wedi bod yn llwyddiannus £6766.68.
Unrhyw fater arall
[1.6] Gwrych gyferbyn a tai Uwch y LLan – angen ei dorri nid yw yn eiddo ir Cyngor pasiwyd holi i gael rhywun iw dorri.
[1.7] Gwrych lwybr ger y syrgeri i fynu am Maes Aled - angen ei dorri i cysylltu efo'r Sir iw gael ei dori.
[1.8] Fynwent Newydd - cafwyd cwyn bod glastwell yn fler o gwmpas y biniau a bod gwair wedi sychu ar y llwybr mae'r clerc wedi cysylltu efo Haydn am hyn.
[1.9] Mynwent yr Eglwys – pasiwyd i gysylltu efo'r eglwys ynglŷn a fynwent i ofyn am gysylltiad efo tori y glastwellt clerc i wneud ymoliadau pellach.
[2.0] Llwybr troed o Lys Tawel heibio Bron Afallen – y clerc i gysylltu a Chonwy i gael trin y llwybr troed sydd angen sylw.
[2.1] Llyfrgell Cerrig – pasiwyd i wneud ymoliadau i gael mwy o oriau agor fel diwrnod arall yn agored yn Ngherrig y Drudion clerc i wneud ymoliadau.

CADEIRYDD…………………………………………………………………………………….